Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG GOGLEDD CYMRU

20 Tachwedd 2026

TEITL: Porthladd Rhydd Ynys Môn – enwebiad i fwrdd y cwmni

AWDUR: Alwen Williams, Prif Weithredwr

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Ceisio cymeradwyaeth mewn egwyddor i enwebu Hedd Vaughan-Evans, Cyfarwyddwr Portffolio, yn gyfarwyddwr anweithredol ar Porthladd Rhydd Ynys Môn Cyfyngedig (rhif cwmni 16100612), y cwmni a nodwyd gan ei gynghorwyr cyfreithiol fel cwmni Porthladd Rhydd Ynys Môn.

1.2. Mae'r adroddiad yn egluro'r manteision rhanbarthol arfaethedig, cyfrifoldebau'r rôl a'r mesurau diogelu sydd eu hangen cyn i'r enwebiad gael ei gyflwyno'n ffurfiol ar gyfer penodiad. Mae'n seiliedig ar yr ohebiaeth a'r dogfennau a ddarparwyd hyd yma; nodir isod unrhyw sicrwydd sy'n weddill.

2. PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Cymeradwyo mewn egwyddor enwebiad Hedd Vaughan-Evans, Cyfarwyddwr Portffolio, yn gyfarwyddwr anweithredol ar Porthladd Rhydd Ynys Môn Cyfyngedig (rhif cwmni 16100612), yn ddarostyngedig i'r amodau a'r trefniadau gweithredu a nodir isod.

2.2. Awdurdodi'r Prif Weithredwr i gyflwyno'r enwebiad ffurfiol dim ond ar ôl i'r Swyddog Monitro gadarnhau'n ysgrifenedig, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151, fod y mesurau diogelu cyfreithiol, llywodraethu ac ariannol hanfodol a ddisgrifir ym mharagraffau 4.8–4.11 wedi cael sylw boddhaol. Mae'r awdurdod hwn at ddiben gweithredu penderfyniad y CBC ac nid yw'n awdurdodi swyddogion i ddewis enwebai arall nac i hepgor y mesurau diogelu hynny.

3. RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae cymryd rhan yn cynnig cyfle i gryfhau'r aliniad rhwng gweithgarwch y Porthladd Rhydd a chyfrifoldebau'r CBC o ran llesiant economaidd rhanbarthol, yn ogystal â'i waith ym meysydd buddsoddi, trafnidiaeth a chynllunio strategol. Mae cyfrifoldebau portffolio Hedd yn darparu cyswllt perthnasol â'r gwaith hwn. Y budd a fwriedir yw sicrhau gwell cydlynu ar draws Gogledd Cymru, ymgysylltu gwybodus ac adrodd priodol, yn hytrach nag ymrwymiad i gefnogi unrhyw brosiect unigol y Porthladd Rhydd.

3.2. Mae penderfyniad mewn egwyddor yn caniatáu i'r dewis strategol hwnnw gael ei wneud yn awr, gan gynnal craffu priodol ar y trefniadau penodi. Nid yw'r ymholiadau sy'n weddill, ynddynt eu hunain, yn atal penderfyniad o'r fath, ar yr amod bod yr aelodau'n deall y risgiau sy'n weddill ac na chaiff yr enwebiad ei gyflwyno nes bod y mesurau diogelu penodedig wedi'u bodloni.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae Porthladd Rhydd Ynys Môn yn fenter datblygu economaidd sy'n seiliedig ar le. Mae'r cynnig gerbron y CBC yn ymwneud â chymryd rhan yn nhrefniadau llywodraethu ei gwmni, ac nid â rhoi statws Porthladd Rhydd na chymeradwyo trefniadau treth, tollau, cynllunio na chyllido. Rôl y CBC o ran llesiant economaidd yw'r prif sail resymegol dros ymgysylltu; rhaid parhau i arfer ei gyfrifoldebau rhanbarthol yn annibynnol.

4.2. Mae Burges Salmon, sy'n gweithredu ar ran Cyngor Sir Ynys Môn, wedi cadarnhau'n benodol mai'r cwmni dan sylw yw Porthladd Rhydd Ynys Môn Cyfyngedig, rhif cwmni 16100612. Mae'n gwmni cyfyngedig drwy warant. Rhaid i'r penderfyniad ymwneud â'r endid hwn ac ni ddylid ei gymysgu ag unrhyw gwmni neu sefydliad arall sy'n defnyddio enw Porthladd Rhydd Ynys Môn.

4.3. Ar 22 Medi 2026, gofynnodd Quod, ar ran Porthladd Rhydd Ynys Môn, am gadarnhad ynghylch cynrychiolydd Uchelgais Gogledd Cymru ar y bwrdd cyn cyfarfod cyntaf arfaethedig y bwrdd ar 16 Hydref. Ar 23 Medi, nododd y Prif Weithredwr Hedd fel y cynrychiolydd arfaethedig. Eglurodd gohebiaeth ddilynol ar 7 ac 8 Hydref mai cyfarwyddiaeth ffurfiol mewn cwmni oedd dan sylw, gan gynnwys cydsynio i weithredu fel cyfarwyddwr a chwblhau proses dilysu hunaniaeth Tŷ'r Cwmnïau.

4.4. Mae'r rôl arfaethedig yn un anweithredol, sy'n ymwneud â chraffu, strategaeth, goruchwylio a chyfrifoldeb ar y cyd fel bwrdd, yn hytrach na rheolaeth weithredol o ddydd i ddydd. Serch hynny, mae'n gyfarwyddiaeth ffurfiol. Byddai angen i Hedd ddeall gweithgareddau'r cwmni, paratoi ar gyfer cyfarfodydd, craffu ar gynigion a gwybodaeth ariannol, a gweithredu'n annibynnol er budd y cwmni ac yn unol â'i ddibenion. Ni fyddai ei safle fel enwebai'r CBC yn caniatáu iddo ddilyn cyfarwyddiadau'r CBC yn unig wrth arfer pwerau'r cwmni.

4.5. Mae'r manteision rhanbarthol a ragwelir yn cynnwys gwell cydlynu mewn perthynas â chyfleoedd buddsoddi, seilwaith, sgiliau a chadwyni cyflenwi, ynghyd â nodi unrhyw orgyffwrdd neu flaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd yn gynharach. Mae'r rhain yn rhesymau dros gymryd rhan, ac nid yn ganlyniadau gwarantedig. Rhaid i'r penodiad sicrhau bod y CBC yn parhau'n rhydd i asesu cynigion cyllido, buddsoddi a chyflawni yn ôl eu rhinweddau ac er budd y rhanbarth cyfan.

4.6. Mewn ymateb i'r ymholiadau ynghylch gwrthdaro buddiannau, darparodd Quod (ar ran y Cwmni) God Ymddygiad a Chofrestr Buddiannau'r Porthladd Rhydd, y ddau yn fersiwn 1.0. Mae'r rhain yn darparu fframwaith defnyddiol ar gyfer cofrestru a datgan buddiannau ac ar gyfer ymneilltuo o faterion lle ceir gwrthdaro buddiannau. Maent yn mynd i'r afael â rhan o'r pryder, ond nid yw bodolaeth cofrestr ynddo‘i hun yn datrys unrhyw wrthdaro rhwng cyfrifoldebau Hedd i'r CBC a'i ddyletswyddau i'r cwmni.

4.7. Gall gwrthdaro buddiannau godi pan fydd y CBC yn ystyried cyllid, monitro prosiectau, gorfodi amodau grant neu flaenoriaethau buddsoddi sy'n cystadlu â'i gilydd ac sy'n ymwneud â'r Porthladd Rhydd. Dylid cymhwyso'r gweithdrefnau presennol i rôl benodol Hedd, gan sicrhau bod unrhyw awdurdodiad o dan gyfraith cwmnïau yn cael ei gofnodi'n briodol, bod rheolau clir ar gyfer ymdrin â phapurau a chymryd rhan mewn trafodaethau, a bod swyddog arall yn ymdrin â materion y CBC lle ceir gwrthdaro buddiannau. Mae angen trefniant cymesur sydd wedi'i gofnodi'n briodol; nid oes angen polisi cwbl newydd ar wrthdaro buddiannau o reidrwydd.

4.8. Cyn cyflwyno'r enwebiad ffurfiol, rhaid i'r Swyddog Monitro fod yn fodlon â'r erthyglau a fabwysiadwyd, darpariaethau perthnasol y Cytundeb Aelodau a thelerau'r penodiad, gan gynnwys y broses benodi, hyd y tymor, ymddiswyddo a'r sefyllfa pe bai Hedd yn gadael y CBC. Rhaid i'r dogfennau fod yn gyson â'r ffaith bod y CBC yn parhau'n gorff nad yw'n aelod o'r

cwmni, ac ni ddylent osod unrhyw ymrwymiad ar y CBC nad yw wedi'i gymeradwyo. Rhaid i Hedd gael digon o wybodaeth am weithgareddau'r cwmni, ei sefyllfa ariannol a'r ymrwymiad amser disgwyliedig er mwyn iddo allu rhoi cydsyniad gwybodus.

4.9. Rhaid cadarnhau bod y trefniadau ar gyfer gwrthdaro buddiannau yn berthnasol i Hedd, gan gynnwys unrhyw awdurdodiad angenrheidiol, ymneilltuo o benderfyniadau a mynediad at wybodaeth. Rhaid hefyd cael trefniant cytunedig ar gyfer adrodd i'r Prif Weithredwr a swyddogion perthnasol y CBC. Mae hyn yn angenrheidiol gan na ellir rhannu gwybodaeth gyfrinachol y Cwmni yn awtomatig oherwydd bod Hedd yn swyddog y CBC; rhaid i'r hyn y caniateir adrodd arno, unrhyw gyfyngiadau ac unrhyw gydsyniadau angenrheidiol fod yn ddigon clir i sicrhau'r budd cydlynu arfaethedig mewn modd cyfreithlon.

4.10. Dylid darparu tystiolaeth bod yswiriant priodol ar gyfer cyfarwyddwyr a swyddogion yn cwmpasu Hedd o adeg ei benodi, a dylid sicrhau bod cwmpas a therfynau'r yswiriant, ynghyd ag unrhyw eithriadau perthnasol, yn cael eu deall yn glir.

4.11. Rhaid i'r Prif Weithredwr a'r Swyddog Adran 151 fod yn fodlon y gellir darparu ar gyfer yr amser y bydd angen i swyddogion ei neilltuo, unrhyw dreuliau ac unrhyw oblygiadau eraill o ran adnoddau o fewn y trefniadau awdurdodedig.

4.12. Y dewis arall yn lle cyfarwyddiaeth fyddai ceisio rôl fel sylwedydd neu gynghorydd. Gallai rôl o'r fath gefnogi ymgysylltu heb yr un lefel o gyfrifoldeb â rôl cyfarwyddwr cwmni, ond ni fyddai fel arfer yn cynnwys hawl cyfarwyddwr i bleidleisio na'r un lefel o fynediad a dylanwad. Byddai rôl o'r fath yn amodol ar gytundeb y cwmni. Byddai gohirio neu wrthod cymryd rhan yn osgoi'r angen am gyfarwyddiaeth, ond byddai hefyd yn lleihau'r cyfle i ymgysylltu. Argymhellir enwebiad amodol fel dull cymesur, ar yr amod y gellir rhoi'r mesurau diogelu angenrheidiol ar waith.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Ni cheisir drwy'r adroddiad hwn unrhyw gyfraniad i'r cwmni, cyfranddaliad, gwarant aelodaeth nac ymrwymiad cyllido. Nid yw enwebu unigolyn yn gyfarwyddwr, ynddo'i hun, yn golygu bod y CBC yn gyfrifol am ddyledion y cwmni nac unrhyw rwymedigaethau sy'n gysylltiedig â grantiau.

5.2. Bydd angen neilltuo amser swyddog ar gyfer paratoi, mynychu cyfarfodydd, hyfforddi ac adrodd. Mae union faint yr ymrwymiad amser, ynghyd ag unrhyw drefniadau ar gyfer tâl a threuliau, eto i'w cadarnhau. Mae'r cynnig yn rhagdybio y gellir darparu ar gyfer cymryd rhan o fewn yr adnoddau presennol sydd wedi'u hawdurdodi; rhaid cadarnhau hyn cyn gweithredu'r penodiad, yn hytrach na chymryd yn ganiataol na fydd unrhyw gost yn gysylltiedig â'r penodiad.

6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Prif sail yr ymgysylltiad arfaethedig yw swyddogaeth statudol y CBC mewn perthynas â llesiant economaidd. Mae'r argymhelliad yn ceisio penderfyniad penodol gan y CBC ynghylch yr enwebiad hwn, ynghyd ag awdurdod cyfyngedig i'w weithredu.

6.2. Mae bod yn gyfarwyddwr cwmni yn golygu ymgymryd â dyletswyddau o dan Ddeddf Cwmnïau 2006, gan gynnwys gweithredu o fewn y pwerau a roddwyd, hyrwyddo llwyddiant y cwmni yn unol â'i ddibenion, arfer barn annibynnol a gofal, sgil a diwydrwydd rhesymol, osgoi neu reoli gwrthdaro buddiannau yn briodol, a datgan buddiannau perthnasol. Nid yw statws

anweithredol yn dileu'r dyletswyddau hynny. Fel arfer, ni fyddai Hedd yn bersonol gyfrifol am ddyledion y cwmni dim ond oherwydd ei fod yn gyfarwyddwr, ond gall torri dyletswyddau neu gyflawni unrhyw gamwedd statudol arall olygu bod cyfarwyddwr yn agored i atebolrwydd personol neu sancsiynau.

6.3. Mae'r enwebiad a'r penodiad gan y cwmni yn ddau gam ar wahân. Ar ôl bodloni'r amodau, cael cydsyniad Hedd a chwblhau'r broses dilysu hunaniaeth ofynnol, rhaid cwblhau cymeradwyaeth y Cyngor a phenderfyniad y cwmni i benodi yn unol â'r erthyglau a fabwysiadwyd.

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Mae'r adroddiad yn gwahaniaethu rhwng enwebiad y CBC a'r penodiad gan y cwmni, ac yn nodi'r mesurau diogelu hanfodol y mae'n rhaid eu rhoi ar waith cyn gweithredu'r penderfyniad. Gellir gwneud penderfyniad amodol ar y sail honno. Mae'r awdurdod dirprwyedig arfaethedig wedi'i gyfyngu i gadarnhau cydymffurfiaeth a gweithredu'r penderfyniad; nid yw'n caniatáu enwebu unigolyn arall nac ymrwymo i unrhyw wariant ariannol nad yw wedi'i gymeradwyo.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Mae'r adroddiad yn nodi'n glir y rhwymedigaethau i'r unigolyn ac i'r CBC o'r penderfyniad a geisir. Er nad wyf yn disgwyl i'r costau ariannol uniongyrchol fod yn sylweddol, bydd asesiad yn parhau fel y nodwyd. Nid oes gennyf wrthwynebiadau i'r penderfyniad a geisiwyd gan fy mod yn fodlon bod y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ymwybodol, trwy'r adroddiad hwn, o'r mesurau diogelu y mae angen eu rhoi ar waith cyn y penderfyniad terfynol, ond bydd penderfyniad amodol yn caniatáu i'r mater fynd rhagddo.